OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 350 (Cy. 85)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Fan i'r De-ddwyrain o Gylchfan Pensarn) a Chefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2017

*Gwnaed* *7 Mawrth 2017*

*Yn dod i rym* *14 Mawrth 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A40) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2017. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Fan i'r De-ddwyrain o Gylchfan Pensarn) a Chefnffordd yr A40 (Cylchfan Pensarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2017.

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.—**(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr, ac

(c) sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 14 Mawrth 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau hynny o'r cefnffyrdd, yn Sir Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw

gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.—**(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Mawrth 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA, 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

## CEFNFFORDD YR A40

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven hyd at bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Sanclêr hyd at bwynt 30 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

iii) Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau o'i chyffordd â'r B4312, Heol Llansteffan, hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

## CEFNFFORDD YR A48

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands hyd at bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

## ATODLEN 2

### TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 358 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pensarn.

iii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pensarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Lesneven.

iv) Y darnau cyfan o gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Pont Lesneven a Phensarn.